| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Hydref 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2017 ac i Esgobaeth Llanelwy agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Newydd, Ffrwd Deuol Categori 2, Yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am y broses sy'n rhaid ei dilyn o ganlyniad i ddiwedd y cyfnod Rhybudd Statudol a fyddai'n caniatáu penderfyniad i gael ei wneud ar y cynnig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar ôl cwblhau cyfnod Rhybudd Statudol, mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â ddylid symud ymlaen i weithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016 ac i Esgobaeth Llanelwy agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Newydd, Ffrwd Deuol Categori 2, Yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2016 Byddai'r ail gam yn gweld yr Ysgol Ardal yn cael ei chyfuno ar safle newydd yn ardal Llanfair/Pentrecelyn, yn amodol ar argaeledd tir ac addasrwydd.

2.2 Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Medi, cytunodd y Cabinet y gallem ymgynghori â'r Esgobaeth, 2 gorff llywodraethu Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn a Llywodraeth Cymru i edrych ar addasu'r cynnig o ran y dyddiad gweithredu; y ddwy ysgol i gau ar 31 Awst 2017 yn hytrach na 2016, a'r ysgol ardal newydd i agor o 1 Medi 2017 yn hytrach na 2016.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion ar gyfer y Cabinet yw:-

(i) Ystyried canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiadau

(ii) Yn amodol ar ystyriaeth o'r uchod, i gymeradwyo gweithredu'r cynnig ac addasiad arfaethedig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2017 ac i Esgobaeth Llanelwy agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Newydd, Ffrwd Deuol Categori 2, Yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017

(iii) Bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 1 agosaf, yn cael eu hystyried fesul achos, gan ddisgyblion presennol a'u brodyr neu chwiorydd yn Ysgol Pentrecelyn am weddill eu haddysg gynradd ar ôl i'r ysgol gau (o 1 Medi 2017).

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyhoeddodd y Cyngor Rybudd Statudol ar 18 Mehefin, 2015 yn rhoi gwybod i fudd-ddeiliaid am y bwriad i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016. Daeth cyfnod y rhybudd statudol o 28 diwrnod i ben ar 15 Gorffennaf 2015.

4.2 4.2 Yn unol â gofynion y cod trefniadaeth ysgolion newydd ((http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?skip=1&lang=cy) cyhoeddwyd y cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a ger y brif fynedfa i'r ysgolion presennol sy'n ymwneud â'r cynnig.
Cafodd pob ysgol a oedd yn ymwneud â'r cynigion gopïau caled o'r rhybudd i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgolion ddosbarthu'r rhybudd trwy e-bost).

4.3. Ar ddiwrnod cyhoeddi'r cynigion, derbyniodd y rhai a ymgynghorwyd â nhw a restrir yn Atodiad 2 naill ai gopi caled o'r cynigion neu e-bost gyda dolen i'r wefan berthnasol.

4.4 Roedd yn rhaid i bob gwrthwynebiad a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd gael ei wneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori ar 15 Gorffennaf, 2015 roedd y Cyngor wedi derbyn 30 gwrthwynebiad unigol gan aelodau o'r Gymuned.

**Proses**

4.5 Wrth benderfynu ar gynigion mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan bod yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau:

- **ystyried** a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill**;**
- **sicrhau** bod yr ymgynghoriad statudol wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod hwn;
  http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=en
- **sicrhau** bod y cynnig wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod y rhybudd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- **ystyried** y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori;
- **ystyried** y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebiad ac unrhyw ymatebion i'r rhybudd sy'n cefnogi'r cynigion;

4.6 Dan adran 54 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 lle mae cynigion wedi eu cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol gall y cyrff canlynol, o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig i'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru i'w ystyried.

- Awdurdod lleol arall yr effeithir arno gan y cynigion;
- Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;
- Ymddiriedolaeth dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion

4.7 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan yn glir “lle mae cynigion awdurdod lleol wedi derbyn gwrthwynebiadau, ac angen cael eu penderfynu o dan adran 53 Deddf 2013, **ni** ddylai'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar y cynigion hyn gyda meddwl caeedig. **Rhaid** ystyried gwrthwynebiadau yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon o ran y cynigion ac yn wyneb y ffactorau a nodwyd yn adran 1.3 - 1.14 y Cod hwn."

4.8 Wrth ystyried y cais dylai'r Cabinet roi ystyriaeth i'r ffactorau a amlygwyd o fewn y cod sy'n cynnwys ansawdd a safonau mewn addysg, yr angen am leoedd ac effaith ar hygyrchedd ysgolion, adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill fel y nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae Atodiad 1, yr Adroddiad Penderfynu yn darparu crynodeb i'r Cabinet o'r ffactorau i'w hystyried cyn penderfynu ar unrhyw gynnig.

4.9 Yn ychwanegol, yn unol â Deddf 2013 mae'n ofynnol i'r Cabinet roi ystyriaeth lawn i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan y Gymuned i'r cynnig. Mae'r gwrthwynebiadau wedi cael eu crynhoi mewn Adroddiad Gwrthwynebiadau sy'n manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr awdurdod lleol i'r pryderon hyn. Mae hwn ynghlwm fel Atodiad 3.

**Addasu Arfaethedig**

4.10 Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Medi, cytunodd y Cabinet y gallem ymgynghori â'r Esgobaeth, 2 gorff llywodraethu Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn a Llywodraeth Cymru i edrych ar addasu'r cynnig o ran y dyddiad gweithredu; y ddwy ysgol i gau ar 31 Awst 2017 yn hytrach na 2016, a'r ysgol ardal newydd i agor o 1 Medi 2017 yn hytrach na 2016. Mae Esgobaeth Llanelwy a'r 2 gorff llywodraethu i gyd wedi dangos eu cefnogaeth i'r addasiad bwriedig ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth.

4.11 Ar y 15fed o Hydref, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod yn cytuno i addasiad y cynnig. Gweler atodiad 8.

**Argymhellion y Pwyllgor Archwilio**

4.12 Adolygodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad benderfyniad y Cabinet i gyhoeddi rhybuddion statudol yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin. Penderfynodd y Pwyllgor nad oedd digon o dystiolaeth i ofyn i'r Cabinet ystyried ei benderfyniad ar 2 Mehefin i gyhoeddi rhybudd statudol i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ac i agor ysgol ardal newydd,

"daeth y Pwyllgor i'r casgliad, ar ôl cael sicrwydd y byddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n dewis gadael y naill ysgol neu'r llall yn cael ei fonitro'n agos ac effaith cau Ysgol Pentrecelyn ar y ddwy ysgol Categori 1 arall yn yr ardal yn hylaw, drwy fwyafrif nad oedd y mater yn teilyngu cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion edrych ar y posibilrwydd i'r Cyngor ddynodi ysgolion yn ysgolion "dwyieithog" yn hytrach na chael ei gyfyngu gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac mae wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgolion ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, sydd o'r math cywir, yn y lleoliad cywir.

5.2 Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i fonitro safonau a deilliannau'r Ysgol Ardal Newydd a fydd yn cael ei adolygu'n gyson yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, Pwyllgor Archwilio ac yn y Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd y cynnig yn cael effaith ar wasanaethau eraill o fewn y sefydliad.

6.2 Y manteision posibl i'r ysgol ardal newydd tra cyfunir ar ddau safle yn ystod y cam cyntaf, gan gymryd i ystyriaeth y byddai colledion ariannol, enillion ac arbedion posibl yn £22,683.

6.3 Os caiff yr argymhelliad ei gymeradwyo, gallai costau cludiant gynyddu ar gyfer y cyfnod penodol hyd nes y bydd disgyblion presennol wedi gadael addysg gynradd, oherwydd y defnydd posibl o gludiant dewisol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Bydd effaith y cynnig hwn yn niwtral gan y bydd ychydig iawn o newid yn ystod y cam cyntaf wrth i'r ysgol ardal newydd weithredu o safle'r 2 ysgol bresennol.

7.2 Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm fel Atodiad 4.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae ymgynghoriad llawn wedi ei gynnal gyda'r holl fudd-ddeiliaid a chyflwynwyd canfyddiadau'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol i'r Cabinet ar 2 Mehefin 2015. Mae crynodeb o'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn yr adroddiad gwrthwynebiadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd angen rhoi ystyriaeth yn y gyllideb ariannu cyfalaf i'r oedi cyn rhyddhau arbedion yn sgil cyfuno'r ysgolion ond ni fydd effaith andwyol ar fforddiadwyedd y prosiect. Bydd unrhyw gostau cludiant ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cyfrifiad cyffredinol o arbedion.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer y Cyngor a sylwadau cyhoeddus andwyol.

Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad:**

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)